Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Bryn Tabor**
**Heol Maelor**
**Coedpoeth**
**Wrecsam**
**LL11 3NB**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Bryn Tabor

Lleolir Ysgol Gynradd Bryn Tabor ym mhentref Coedpoeth, sydd ychydig filltiroedd o dref Wrecsam yn awdurdod lleol Wrecsam. Mae 274 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 36 oed meithrin rhan-amser.

Tros dreigl tair blynedd, mae ychydig o dan 12% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 19%. Tua 5% o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 20% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n debyg i'r ganran genedlaethol, sy'n 21%.

Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd yn 2007 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2013.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r pennaeth profiadol yn darparu arweinyddiaeth gref, effeithiol a phwrpasol o safon uchel iawn.  Mae ganddo ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth benderfynol ar gyfer datblygu'r ysgol sy’n cael eu rhannu'n egnïol gyda'r holl ddisgyblion, staff a llywodraethwyr mewn awyrgylch hapus, cefnogol a chartrefol iawn.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni’n dda.  Mae bron pob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo’n ddiogel o fewn yr ethos gofalgar, cynhwysol a chynhaliol.  Maent yn dangos lefel uchel iawn o ofal a pharch tuag at ei gilydd ac eraill.  Mae llais y plentyn yn ganolog i weledigaeth yr ysgol.  Mae hyn yn agwedd ragorol.

Mae bron pob un disgybl yn ymddwyn yn hynod dda, yn cymryd eu tro yn gwbl naturiol, ac yn ystyried teimladau ei gilydd yn barhaus.  Mae bron pob un yn hynod gwrtais ac yn barod iawn i sgwrsio gyda’i gilydd a chydag oedolion, gan esbonio’u gwaith mewn modd aeddfed a deallus.

Mae perthynas waith effeithiol iawn yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion sy’n meithrin awyrgylch dysgu llwyddiannus.  Mae egwyddorion cynllunio’r ysgol yn drwyadl sy’n canolbwyntio ar ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o’u treftadaeth.  Mae’r athrawon sy’n cydweithio o fewn y gwahanol unedau dysgu yn cyd-gynllunio’n llwyddiannus iawn.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn defnyddio’r Gymraeg yn gyson fel cyfrwng cyfathrebu o fewn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol.

A2 Sicrhau bod y ddarpariaeth i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu’n systematig ar y rheini sydd eisoes ganddynt.

A3 Gwella ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion cyfnod allweddol 2.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â llais y disgybl, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Ychydig o’r disgyblion sy’n cychwyn yr ysgol yn medru siarad Cymraeg. Fodd bynnag, yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg effeithiol ac yn gwneud cynnydd da. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni’n gadarn yn erbyn eu targedau personol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol. Maent yn hyderus yn y Gymraeg ac yn esbonio’u gwaith yn synhwyrol, gan roi rhesymau dilys am ddewis deunyddiau penodol wrth adeiladu llong môr ladron ym Mlwyddyn 1 a 2. Mae medrau llafar y rhan fwyaf yng nghyfnod allweddol 2 yn aeddfed yn y ddwy iaith. Er enghraifft, maent yn trafod rhesymau o blaid ac yn erbyn cyflwyno gwaith cartref yn ddeallus ac yn disgrifio creiriau o chwedl Cantre’r Gwaelod yn fanwl. Er bod y rhan fwyaf yn medru sgwrsio’n rhugl yn y Gymraeg wrth rhannu eu syniadau mewn nifer o gyd-destunau, mae tueddiad gan lawer o ddisgyblion i ddefnyddio’r Saesneg fel cyfrwng sgwrs y tu mewn a thu allan i wersi. Mae bron pob un disgybl yn gwrando’n astud ar oedolion a chyfoedion, sy’n cyfrannu’n dda at eu dealltwriaeth o gysyniadau newydd. Er enghraifft, mae llawer yn y cyfnod sylfaen yn gwrando’n synhwyrol ar gyfarwyddiadau ar sut i arbrofi gyda gwrthrychau sy’n suddo neu arnofio mewn dŵr. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn dangos parch wrth wrando ar safbwyntiau eraill ac yn siarad yn aeddfed â’i gilydd. Er enghraifft, maent yn mynegi barn yn hyderus am wahanol gyfansoddiadau cerddorol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen cynnar yn gadarn ar waelod y cyfnod sylfaen gan adeiladu geiriau anghyfarwydd yn gywir, trwy ddefnyddio strategaethau ffonig defnyddiol. Wrth symud trwy’r cyfnod, mae llawer yn darllen testunau amrywiol yn gynyddol ddeallus yn y Gymraeg. Maent yn trafod cynnwys eu llyfrau’n synhwyrol, fel esbonio am ddigwyddiadau yn stori Elen Benfelen. Mae llawer yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn ystyrlon ac yn ynganu’n glir yn y ddwy iaith. Maent yn gwahaniaethu’n dda rhwng llyfrau ffuglen a ffeithiol ac yn nodi rhinweddau cymeriadau’n gywir. O ganlyniad, maent yn ymarfer eu medrau darllen uwch i ymestyn eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o wahanol ffynonellau yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw’r gwaith ymchwil maent yn ei wneud am drychinebau ar draws y byd, gan gynnwys llosgfynyddoedd a’r Titanic yn suddo, cyn ei gyflwyno’n hyderus i’w cyfoedion.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar, mae rhan fwyaf y disgyblion yn y dosbarth derbyn yn ffurfio llythrennau’n gywir ac yn cymhwyso’u medrau’n hyderus yn yr ardaloedd chwarae rôl. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn defnyddio ffurf orchmynnol y ferf yn gywir wrth ysgrifennu rheolau gêm pêl-droed a defnyddio ansoddeiriau’n effeithiol wrth ddisgrifio cymeriad o stori’r Gryffalo yn ddychmygus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu’n drefnus yn y ddwy iaith gan gyflwyno syniadau a gwybodaeth o’u dewis yn effeithiol. Er enghraifft, mae llawer yn defnyddio cymariaethau crefftus i gyfoethogi eu hiaith tra’n gwerthuso cerdd am y milwr Cymreig, Owain Lawgoch. Mae’r disgyblion yn cymhwyso’u medrau llythrennedd yn gadarn mewn meysydd amrywiol. Er enghraifft, maent yn creu adroddiad heddlu yn Saesneg am y drosedd o dorri i mewn i gartref y tri arth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ansoddeiriau ac adferfau cyfoethog wrth ysgrifennu erthygl papur newydd am 'gôl orau'r dydd'. Fodd bynnag, mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith tua hanner disgyblion cyfnod allweddol 2 yn flêr.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau rhifedd. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn datblygu hyder wrth gyfri ac maent yn adnabod rhifau o oed cynnar. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn trin arian yn gywir ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o fesur ac amser. Maent yn defnyddio data i greu graffiau syml ac yn eu dehongli yn hyderus, er enghraifft wrth gymharu taldra gwahanol ddinosoriaid. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus o fewn a thu allan i'r dosbarth. Mae gan ran fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth gadarn a chynyddol gywir o sut i ddefnyddio data ac maent yn ei gyflwyno'n hyderus mewn amrywiol ffurfiau. Erbyn diwedd y cyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso'u medrau yn llwyddiannus mewn meysydd amrywiol y cwricwlwm, yn benodol wrth gwblhau prosiectau gwyddonol. Enghraifft dda o hyn yw sut y maent yn ymchwilio i effaith arwynebeddau gwahanol adenydd ar amser cwymp hofrennydd o uchder penodol.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus i wahanol ddibenion. Yn y cyfnod sylfaen, er enghraifft, mae bron pob un disgybl yn hyderus wrth ddefnyddio amrediad o raglenni sy'n cyfoethogi eu dysgu yn effeithiol iawn. Maent yn rheoli tegan rhaglenadwy i ddilyn taith arbennig ar Ynys y Môr Ladron fel rhan o'u gwaith thema ac mae eu medrau codio yn datblygu'n ardderchog. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn cymhwyso eu medrau TGCh i safon dda ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gyflwyno gwybodaeth am drychinebau y maen nhw wedi ymchwilio iddynt, fel hanes y Titanic. Fodd bynnag, nid yw eu medrau bas data a'u gwaith ar daenlenni wedi datblygu i'r un graddau. Mae dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd e-ddiogelwch yn gadarn ar draws yr ysgol.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae bron pob un disgybl yn hapus a diogel yn yr ysgol. Maent yn teimlo bod y pennaeth a'r staff yn gofalu'n arbennig o dda amdanynt, a'u bod yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau cyfoethog a diddorol. Maent yn ymfalchïo bod ganddynt lais cryf yn yr hyn maent yn ei ddysgu. Maent yn dylanwadu'n uniongyrchol ar benawdau a chynnwys y themâu, yn ogystal â dewis lefel her eu tasgau dyddiol. Er enghraifft, mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn cyflwyno syniadau am ardaloedd yn y dosbarth i gyd-fynd â thema'r milfeddyg. Mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 wedi dewis 'Cestyll' fel thema a thasgau fel cynllunio bwydlen neu wahoddiad i barti yn gysylltiedig â chwedl 'Cantre'r Gwaelod'. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymroi'n dda iawn i dasgau. Mae gweithredu ar lais y disgybl yn un o brif rinweddau'r ysgol.

Mae bron pob un disgybl yn gwybod at bwy i droi pan fydd angen cyngor neu gymorth arnynt ac maent yn teimlo'n gysurus i wneud hynny. Mae bron pob un yn ymddwyn yn hynod dda, yn cymryd eu tro yn gwbl naturiol, ac yn ystyried teimladau ei gilydd yn barhaus. Mae bron pob un yn hynod gwrtais ac yn barod iawn i sgwrsio gyda'i gilydd a chydag oedolion, gan esbonio'u gwaith mewn modd aeddfed a deallus.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol iawn tuag at ddysgu. Maent yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau a chyfarwyddiadau ar ddechrau sesiynau ac yn symud yn hwylus rhwng eu gweithgareddau. Mae bron pob un yn chwilfrydig ac yn gweithio'n hynod gydwybodol ar dasgau, gan ddewis lefel yr her sy'n briodol ar eu cyfer mewn modd aeddfed iawn. Maent yn cynnal eu canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn dyfalbarhau'n ardderchog i gwblhau eu tasgau o fewn cyfnodau penodol. Wrth wynebu heriau newydd, maent yn defnyddio unrhyw wybodaeth berthnasol sydd eisoes ganddynt i'w cynorthwyo mewn cyd-destunau gwahanol, gan gynnwys gweithio gyda'u partneriaid parablu ac ymchwilio'n annibynnol ac aeddfed ar y rhyngrwyd. Maent yn ddysgwyr hyderus sy'n hapus i roi cynnig ar dasgau heb ofni bod yn anghywir. Mae'r rhan fwyaf yn ymwybodol o'u targedau ar gyfer gwella ac yn rhoi ystyriaeth iddynt wrth gwblhau eu tasgau dyddiol. Er enghraifft, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn esbonio agweddau penodol i'w datlbygu gyda'u medrau ysgrifennu creadigol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall sut i wneud dewisiadau iach mewn perthynas â bwyta ac yfed, eu gweithgarwch corfforol a'u lles emosiynol, gan gynnwys sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd eang a gânt i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau corfforol yn ystod y dydd, yn ogystal â'r clybiau allgyrsiol fel y clwb pêl-droed, sy'n agored i bawb. Atgyfnerthwyd hyn yn llwyddiannus wrth i ddisgyblion ddewis offer cadw'n heini sy'n cael ei ddefnyddio tu allan. Gwneir defnydd effeithiol o'r ardaloedd allanol ac adnoddau amrywiol yn gyson sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar les ac iechyd y disgyblion. Mae disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd cyfoethog a gânt i arwain, mynegi barn a chynrychioli eu cyfoedion ar y gwahanol gynghorau a phwyllgorau. Mae'r rhain yn cynnwys y cyngor ysgol, y cyngor eco, y dewiniaid digidol a'r dreigiau doeth. Mae'r amrywiol gynghorwyr yn falch iawn bod arweinwyr yn gweithredu'n gadarnhaol ar eu syniadau i wella'r ddarpariaeth, sy'n cynnwys ehangu'r cyflenwad o adnoddau chwarae sydd ar gael i ddisgyblion ar y buarth adeg egwyl. Mae'r dewiniaid digidol yn chwarae rhan allweddol wrth godi ymwybyddiaeth eu cyfoedion o bwysigrwydd diogelwch ar y we a'r gwahanol apiau sydd ar gael i gefnogi eu gwaith dosbarth. Mae'r dewiniaid hefyd wedi cynnal hyfforddiant i'r rhieni am ddatblygiadau digidol yn yr ysgol. Mae aelodau'r grŵp hwn hefyd wedi codi arian i brynu amrywiaeth o offer technolegol newydd o'u dewis nhw trwy werthu siocled poeth yn yr ysgol. Yn ddiweddar, mae'r dreigiau doeth wedi dechrau cefnogi'r siarter iaith i godi ymwybyddiaeth eu cyfoedion o fanteision siarad Cymraeg yn gyson.

Mae medrau arwain a gallu disgyblion i weithredu'n annibynnol ar brosiectau mentergarwch yn datblygu'n hynod effeithiol. Mae bellach yn draddodiad blynyddol bod disgyblion hŷn yr ysgol yn trefnu a chynnal noson o hap chwarae i godi arian i brynu adnoddau o'u dewis nhw i'r ysgol. Nhw sy'n gyfrifol am gasglu'r gwobrau ac am yr holl drefniadau. Codwyd symiau sylweddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, sydd wedi eu defnyddio i brynu llechi electronig ac allweddellau trydan.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol iawn fel dinasyddion moesegol. Maent yn ymwybodol o degwch, cydraddoldeb a goddefgarwch ac maent yn codi symiau sylweddol tuag at amrywiaeth o elusennau yn flynyddol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae perthynas waith effeithiol iawn yn bodoli rhwng holl oedolion a disgyblion yr ysgol. Mae'n seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth, sy'n meithrin awyrgylch ddysgu lwyddiannus. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol iawn gan drin pob disgybl yn deg a dangos parch atynt. Mae'r cymorthyddion hefyd yn cefnogi disgyblion sydd angen cymorth addysgol a lles yn hynod effeithiol ar draws yr ysgol. Mae'r arddangosfeydd trwy'r ysgol yn ysgogol iawn ac yn gyfuniad o ddathlu gwaith disgyblion a chymorth i'w cynorthwyo â'u dysgu yn annibynnol. Enghraifft dda o hyn yw'r waliau sy'n hyrwyddo pedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru ym Mlwyddyn 6 ac egwyddorion meddylfryd twf ar gyfer disgyblion unigol ymhob dosbarth. Mae rhan fwyaf yr oedolion yn fodelau rôl ieithyddol cadarn.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n dda yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau addysgu diddorol er mwyn cynnal diddordeb y disgyblion a'u hannog i ddatblygu ymhellach a gwneud cynnydd cyson. Yn ogystal, maent yn amrywio eu dulliau o holi yn gelfydd i ganfod yr hyn mae'r disgyblion yn ei ddeall ac i symud eu dysgu ymlaen yn llwyddiannus. Mae'r holl athrawon yn rhannu nodau a meini prawf llwyddiant yn glir gyda'r disgyblion, sy'n sicrhau eu bod yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn llwyddo. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn rhoi adborth adeiladol a phwrpasol i'r disgyblion sydd hefyd yn gymorth iddynt lwyddo mewn amrywiol dasgau.

Mae egwyddorion cynllunio'r ysgol yn effeithiol. Mae'r athrawon sy'n cydweithio o fewn y gwahanol unedau dysgu yn cyd-gynllunio'n llwyddiannus iawn. Mae'r cynlluniau'n seiliedig ar syniadau disgyblion, yn cynnwys cyfeiriad manwl at y fframwaith llythrennedd a rhifedd, y medrau i'w datblygu a thasgau cyfoethog. Maent yn cynnwys cyfeiriad clir at anghenion penodol grwpiau o ddisgyblion ynghyd ag amrywiol lefelau o her mewn tasgau iddynt ddewis ohonyn nhw. Mae'r cynlluniau cwricwlaidd wedi eu llunio gyda phwyslais penodol ar hanes a diwylliant yr ardal leol. Mae enghreifftiau da yn cynnwys y thema 'Cestyll' sy'n gyfle i ddisgyblion astudio daearyddiaeth gogledd Cymru a hanes oes y Tuduriaid yn ardal leol yr ysgol. Mae'r gweithgareddau yn gyffrous ac yn cwmpasu'r holl feysydd dysgu. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddewis pa un o'r ardaloedd chwarae rôl maent am weithio ynddynt ynghyd â chyflwyno heriau penodol iddynt. Mae hyn yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol a brwdfrydig y disgyblion tuag at eu dysgu ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad bron pob un. Mae'r profiadau cyfoethog hyn yn annog y disgyblion i fod yn unigolion uchelgeisiol, mentrus a chreadigol. Mae'r ysgol wedi dechrau cynllunio ar gyfer cyflwyno gofynion y fframwaith cymhwysedd digidol. Maent yn cynllunio ystod o weithgareddau TGCh diddorol i ddisgyblion o fewn eu cynlluniau, gan roi cyfleoedd iddynt ddefnyddio'u medrau mewn amrywiol gyd-destunau. Mae'r rhain wedi eu cynllunio'n effeithiol yn y cyfnod sylfaen ond nid ydynt yn ddigon strwythuredig yng nghyfnod allweddol 2 er mwyn sicrhau'r dilyniant a'r parhad angenrheidiol ym mhob agwedd o'r maes hwn.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi'u gwreiddio'n llwyddiannus iawn yn yr ysgol. Mae llais y disgybl, ynghyd â'r cyfleoedd iddynt ddewis eu gweithgareddau, yn gryfder mawr ar draws yr ysgol. Mae disgyblion ym mhob dosbarth yn defnyddio'r ardaloedd yn yr awyr agored yn effeithiol iawn, lle mae'r athrawon yn darparu

profiadau gwerthfawr iddynt fel yr ysgol goedwig a heriau creadigol eraill yn rheolaidd. Maent yn cynnig ystod eang iawn o weithgareddau symbylus a chyfoethog i'r disgyblion. Mae'r rhain yn cyfoethogi eu profiadau o fewn cyd-destun yr ardal leol, ymweliadau diddorol i gestyll lleol, amgueddfeydd a theithiau trên. Mae mentrau 'creu sefyllfa' ymhob dosbarth yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad bron pob un disgybl. Mae enghraifft dda o hyn yn cynnwys ysgogiad bachog, sef bod person pwysig ar goll ac mewn perygl ar gopa'r Wyddfa, lle caiff y disgyblion gyfle rhagorol i wneud penderfyniadau ac i ddefnyddio'u medrau meddwl, cyfathrebu a datrys problemau mewn sefyllfa realistig.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gymuned hynod deuluol, gyfeillgar a gofalgar sy'n hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad ardderchog, cwrteisi ac ymroddiad yn llwyddiannus iawn. Mae'n darparu'n effeithiol ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol, moesol a diwylliannol y disgyblion trwy drefnu cyfleoedd cyfoethog iddynt fyfyrio mewn sesiynau cyd-addoli ac amser cylch a thrwy roi pwyslais mawr ar draddodiadau a materion diddorol eraill sy'n gysylltiedig â'r ardal leol. Mae'n hybu agweddau, gwerthoedd ac egwyddorion bywyd yn gadarn iawn drwy annog disgyblion i gydweithio fel un gymuned ac i fod yn ddinasyddion cyfrifol sy'n barod i helpu eraill. Er enghraifft, mae athrawon yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ystyried, dewis a chodi arian at elusennau. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwella eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill.

Mae'r cyfleoedd creadigol niferus a gaiff y disgyblion i ymweld â chanolfannau yn yr ardal leol, ynghyd â pherfformio a chystadlu mewn eisteddfodau, yn elfen gref. Mae hyn yn atgyfnerthu ymwybyddiaeth y disgyblion o'u hetifeddiaeth o Gymru yn llwyddiannus iawn. Mae hyn yn datblygu medrau mynegiannol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol. Mae'r sylw gofalgar mae'r staff yn ei roi i barchu llais y disgybl yn cyfrannu'n arbennig at gyfleoedd i'r disgyblion gymryd cyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau pwysig. Mae hyn yn elfen ragorol sy'n hybu gwerthoedd cytûn a dyfalbarhad personol drwy strategaethau hyrwyddo lles yr ysgol. Mae hyn yn cael ei amlygu'n glir yn y ffordd mae'r disgyblion yn ymdrin â'i gilydd ac yn cyfrannu'n helaeth at gynllunio'r profiadau dysgu sy'n cynnwys dewis themâu, cyflwyno syniadau am ardaloedd yn y dosbarthiadau a gweithgareddau awyr agored a chynnig opsiynau ar gyfer ymweliadau addysgol. Mae'r ysgol yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion yn effeithiol iawn trwy gyfrwng arddangosfeydd lliwgar a deniadol sy'n amlwg ar draws yr ysgol ac mewn gwasanaethau wythnosol. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn drwyadl ac yn effeithiol iawn. Mae'r ysgol yn adnabod eu hanghenion yn gynnar ac yn darparu cefnogaeth werthfawr ar eu cyfer yn llwyddiannus iawn. Maent yn cydweithio'n agos gydag amrywiaeth o asiantaethau allanol er mwyn darparu cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf dros amser.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn, clir a hygyrch i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r rhain yn ddeallus i gynllunio camau gwelliant ar gyfer yr holl ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn derbyn cefnogaeth o ansawdd effeithiol iawn sy'n eu cynorthwyo i ymgysylltu'n dda iawn â'u dysgu. Mae hyn oll yn cyfrannu'n arbennig o lwyddiannus at greu'r ethos hynod ofalgar a theuluol sy'n bodoli o fewn yr ysgol.

Mae perthynas waith werthfawr a llwyddiannus yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r ysgol yn hysbysu'r rhieni yn rheolaidd am weithgareddau a digwyddiadau. Cynhelir nifer o ddigwyddiadau i sicrhau ymglymiad y rhieni yn addysg eu plant, er enghraifft i ymgyfarwyddo ag ymyraethau lles. Mae'r ysgol yn gwrando ar safbwyntiau rhieni ac yn ymateb yn gefnogol i'w syniadau. Cefnogir hyn yn llwyddiannus gan y gymdeithas rhieni ac athrawon wrth iddynt godi arian i brynu adnoddau, fel offer technolegol, sy'n eu galluogi i ddatblygu'r elfen hon.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r cwricwlwm, gwersi addysg gorfforol a gweithgareddau allgyrsiol yn sicrhau bod y rhan fwyaf ohonynt yn deall manteision ymarfer y corff yn rheolaidd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y disgyblion o faterion sy'n ymwneud â'u hiechyd a'u lles.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae'r pennaeth profiadol yn darparu arweinyddiaeth gref, effeithiol a phwrpasol. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth benderfynol ar gyfer datblygu'r ysgol sy'n cael eu rhannu'n egnïol gyda'r holl ddisgyblion, staff a llywodraethwyr mewn awyrgylch hapus, cefnogol a chartrefol iawn. Mae'r rhain yn deillio o werthoedd addysgol clir a dyheadau uchelgeisiol ar gyfer pob disgybl. Mae'r pennaeth yn gweithio'n llwyddiannus gydag aelodau'r uwch dîm rheoli, y staff, y llywodraethwyr, y disgyblion a'r rhieni i weithredu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus.

Mae'r pennaeth yn arweinydd hynod gydwybodol sy'n cael ei gefnogi'n ardderchog gan aelodau'r uwch dîm rheoli, sy'n cynnwys y dirprwy, arweinydd y cyfnod sylfaen a'r arweinydd llythrennedd a rhifedd. Mae'r drefniadaeth hon yn llwyddo i'w datblygu'n arweinwyr hyderus sy'n gweithredu gwelliannau i godi safonau addysgol a lles yr holl ddisgyblion. Mae'r staff yn ymroddgar, yn cydweithio'n agos fel tîm, gan ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn hynod gydwybodol ac effeithiol iawn. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy trwy ddod at ei gilydd i drafod yn rheolaidd a chynllunio ar y cyd. Mae eu cyfarfodydd yn canolbwyntio'n gadarn ar safonau a blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae hyn yn rhoi ffocws clir i waith yr holl staff, ac yn cyfrannu'n dda at sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn gymorth llwyddiannus i leihau baich gwaith athrawon.

Mae arweinwyr yn cynllunio'n drwyadl i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r staff yn frwdfrydig wrth fynd i'r afael â datblygiadau diweddar ym maes addysg, er enghraifft wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru a chyflwyno'r fframwaith cymhwysedd digidol. Mae ymroddiad staff i wrando ar lais y disgybl a chyflwyno strategaethau sy'n hyrwyddo dysgu annibynnol yn cyfrannu'n eithriadol at sicrhau eu bod yn dangos lefelau uchel o gymhelliant a diddordeb yn eu gwaith. Mae'r ffocws ar weithredu'r Siarter Iaith yn hybu'r Gymraeg a Chymreictod sy'n datblygu balchder y disgyblion tuag at eu hunaniaeth a'u treftadaeth.

Nodwedd ragorol ar yr arweinyddiaeth yw'r cyfoeth o gyfleoedd sy'n galluogi staff o bob lefel i ddatblygu'n broffesiynol, sy'n cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i arsylwi arfer dda yn yr ysgol ac mewn sefydliadau eraill. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn

hyrwyddo dysgu proffesiynol y staff yn llwyddiannus ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae'r ysgol yn cofleidio gwaith ysgol i ysgol ac maent yn gwneud hyn yn effeithiol gydag ystod o sefydliadau. Enghraifft fuddiol yw'r cyflawniadau o ansawdd da sy'n deillio o gynnig ysgogiad symbylus i ddisgyblion yn eu gwaith ar y Tuduriaid. Mae aelodau'r staff hefyd yn arwain ar feysydd o arfer dda ledled y rhanbarth, er enghraifft drwy rannu arfer dda mewn agweddau o TGCh.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn frwdfrydig ac yn gefnogol iawn o waith yr ysgol. Mae'r pennaeth yn eu hysbysu'n drylwyr am ddatblygiadau a chynnydd disgyblion. Mae ganddynt ddealltwriaeth sicr o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cynnig cefnogaeth i arweinwyr yr ysgol wrth gytuno ar benderfyniadau strategol. Trwy gymryd rhan mewn teithiau dysgu, mae nifer o lywodraethwyr wedi dechrau casglu tystiolaeth uniongyrchol ar agweddau ar waith yr ysgol, er enghraifft gwerthuso cyfraniad llais y plentyn yn eu dysgu. Mae hyn yn eu cynorthwyo i ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol.

Mae trefniadau hunanwerthuso parhaus yn greiddiol i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r diwylliant cryf hwn yn canolbwyntio'n gadarn ar ddeilliannau disgyblion ac mae effaith y ddarpariaeth, yr addysgu a'r gofal wedi'i sefydlu'n effeithiol iawn. Mae gan yr ysgol amserlen glir ar gyfer monitro ei gweithgareddau ac mae'n defnyddio ystod fuddiol o dystiolaeth uniongyrchol sydd â ffocws penodol ar gyrhaeddiad disgyblion. O ganlyniad, mae gan staff ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen eu gwella. Mae cyswllt clir rhwng canfyddiadau'r broses hunanwerthuso a blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol, sy'n canolbwyntio'n drwyadl ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Cryfder y broses yw'r trefniadau monitro'r blaenoriaethau gan holl staff yr ysgol sy'n eu galluogi i werthuso perfformiad yr ysgol yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau o ansawdd uchel. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn gwneud defnydd effeithiol o gyllideb yr ysgol i gyfoethogi'r cwricwlwm, gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau disgyblion ym mhob maes. Maent yn cysylltu'r gwariant yn ddychmygus â blaenoriaethau'r cynllun gwella ac yn monitro'r cyllid yn ofalus i sicrhau'r defnydd gorau ohono. Maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn ddarbodus i godi safonau'r rheini sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r gwaith hwn yn cael effaith gadarn ar ansawdd y ddarpariaeth a safonau lles ac agweddau at waith y disgyblion. Mae'r ysgol yn rhagweithiol wrth sicrhau incwm grantiau ychwanegol, weithiau ar ran ysgolion lleol eraill, sy'n llwyddo i gynnig ymyraethau ychwanegol i grwpiau bach o ddisgyblion gan gymryd rôl arweiniol yn y gwaith.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/08/2016